

Mynydd Yr Ystum

30 Km - 19 Milltir

Mynydd Yr Ystum

30Km - 19 Miles

Pen Llŷn
Llŷn Peninsula



Taith Mynydd Yr Ystum

- Mae'r daith yn dechrau ger toiledau cyhoeddus yn Aberdaron. Troi i'r chwith wrth gyrraedd y ffordd, croesi'r bont yna troi i'r chwith ac i fyny'r allt. Cymeryd y troad cyntaf i'r dde a theithio yn syth ymlaen ar draws y groesffordd nesa.
- Aros ar y ffordd nes cyrraedd Methlem yna troi i'r chwith. Ar y pedwerydd troad, troi i'r dde a throi i'r chwith ar y gyffordd nesa tuag at Llangwnnadr. Troi i'r chwith ar y gyffordd cyn cyrraedd Llangwnnadr, teithio'n syth ymlaen ar draws y gyffordd nesa a pharhau ar y ffordd nes cyrraedd ffordd B4417.
- Troi i'r dde, a throi i'r chwith ar y gyffordd nesa tuag at Sarn Mellteyrn, i'r chwith ar y gyffordd nesa ac i lawr yr allt yn ofalus. Pan fydd y ffordd yn gwyro i'r chwith mae angen troi i'r dde gyda gofal arbennig. Dilyn y ffordd i fyny allt serth ar draws un groesffordd a throi i'r dde ar y gyffordd nesa.
- Ymlaen ar hyd Mynydd Rhiw gan gymeryd gofal arbennig wrth fynd lawr yr allt. Troi i'r dde ac yna troi i'r chwith a dilyn y ffordd nes cyrraedd Blawdty. Troi i'r dde a dilyn y ffordd yn ôl i Aberdaron gan droi i'r chwith i'r man cychwyn.

Mynydd Yr Ystum Ride

- Start near the public toilets in Aberdaron. Go left at the junction with highway. Turn left after the bridge and continue up hill. Take the first right cycling straight through the next crossroads.
- Before Methlem farmhouse bear left and then take the fourth turning right. At the next junction turn left for Llangwnnadr. Bear left at the road junction before Llangwnnadr. Cycle through next junction reaching the B4417.
- Take a right turn and at next junction cycle left towards Sarn Mellteyrn. At next road junction go left whilst taking care on the descent. The road descends to the left and care is needed prior to taking the next right turn. Continue up steep hill through the next crossroads turning right at the following road junction.
- Approaching Mynydd Rhiw please take special care whilst descending. Bear right and then left following the road reaching the Blawdty farmhouse. Bear right and follow road back towards Aberdaron. Remember to take a left turn to return to the departure point.

MILLIROEDD/MILES

3

4

5

6

7

8

9

MILLIROEDD/MILES

3

4

5

6

7

8

Mynydd Yr Ystum

Cychwyn a Gorffen: Canol pentref Aberdaron

Parcio: Canol pentref Aberdaron (dylid nodi amseroedd agor y maes parcio)

Hyd y Daith: **30.5Km - 19 milltir**

Amser: **2-3 awr**

Trafnidiaeth Gyhoeddus Agosaf: *Rheilffordd:* Pwllheli

Bws Flexi - O Ddrws i Ddrws - 01758 721777

Gwasanaethau agosaf ar gyfer beicwyr:

Beics Berno - Tudalen Facebook

Partiau a thrwsio - Llŷn Cycle Centre, Yr Ala, Pwllheli. Ffôn: 01758 612414.



Ynys Enlli dros y Swnt

Ar ran gyntaf y daith, o Aberdaron ac ar hyd yr arfordir, byddwch yn dilyn Ffordd y Pererinion a redai o Glynnog Fawr i Ynys Enlli. Yn Eglwys Sant Hywyn mae dwy garreg fedd o'r G6 ac yn Y Gegin Fawr, sy'n gaffi poblogaidd, y gorffwysai'r pererinion cyn mentro ar draws y Swnt stormus. Mae hanes yn glynu yn dynn ym mhendraw Llŷn. Ewch heibio i gromlech, maen hir a ffatri arfau o Oes y Cerrig, a bydd modd galw yn yr eglwys dawel a hardd yn Llangwnnadi - cyrchfan arall i'r seintiau.

Ar hyd arfordir gogledd Llŷn mae nifer o draethau tywod; Porthor a'i dywod sy'n chwibannu, a Thraeth Penllech, yn ogystal â mân borthladdoedd creigiog, cysgodol. Ar y gorwel mae Ynys Môn, ac ar hirnos glir o haf daw Mynyddoedd Wiclo i'r golwg, ond fod hynny'n arwydd fod y tywydd ar droi.

Mae'r daith gyfan yn eithaf gwastad arwahan i'r ddwy allt o bobtu Aberdaron, ac o Sarn Mellteyrn i lethrau Mynydd y Rhiw. Yno cechw olygfeydd rhyfeddol o Borth Neigwl a phatrwm caeau a ffermydd Llŷn, yr Eifl ac Eryri, a mynyddoedd Meirionnydd dros Fae Ceredigion. Wrth deithio i lawr o Rhiw tuag at Aberdaron ceir golygfeydd yr un mor ysblennydd o Ynsoedd Gwylanod ym Mae Aberdaron, Ynys Enlli a phen draw Llŷn.



picnic

Mynydd Yr Ystum

